# Creu Garlant Gwedd y Lleuad



cyswllt celf
arts connection


www.artsconnection.org.uk
www.emilywilkinson.net

# Creu Garlant Gwedd y Lleuad

DEUNYDDIAU


- 2 x dalen o gerdyn A4 – aur neu arian
- Templedi siapiau'r lleuad
- Siswrn
- Glud
- Tua 2 fetr o ruban main
- Pensil neu bin ysgrifennu







O’r ddalen torrwch allan siapiau’r lleuad a thynnwch linell o’u cwmpas ar eich cerdyn aur/arian. Os taw dim ond un ochr sy’n fetelaidd, tynnwch y siapiau ar yr ochr arall. Bydd angen dau set o’r siapiau, felly mae angen tynnu bob siâp ddwywaith.



Ar ddarn o'r rhuban, gallwch ddechrau trefnu'r siapiau'n debyg i'r diagram. Defnyddiwch y parau o siapiau, a defnyddiwch un fel y blaen, a'r llall fel y cefn, a'u gludo at ei gilydd, gyda'r rhuban rhyngddynt.





Clymwch ddolen fach ar gyfer y pen (a'r gwaelod pe dymunir) er mwyn ei hongian. Gellir hongian y garlant yn fertigol neu'n llorweddol fel addurn tymhorol.

